**BRIFFIAD**

# Hyrwyddo addysg hawliau dynol yn ein hysgolion

**Neges Allweddol:** Mae'n rhaid i Gymru hyrwyddo Addysg Hawliau Dynol ym mhob ysgol fel rhan eglur o'r cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)

Mae darparu dulliau diddorol o ddysgu am hawliau dynol i blant a phobl ifanc a chymryd camau i amddiffyn hawliau dynol yn rhan bwysig iawn o waith Amnest Rhyngwladol i hyrwyddo hawliau dynol yng Nghymru.

Rydym wedi datblygu amrywiaeth o ddeunyddiau addysgol dwyieithog ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru, gan gynnwys cynlluniau gwersi a phecynnau adnoddau y gellir eu lawrlwytho ac i helpu athrawon yng Nghymru wneud hawliau dynol yn fyw yn yr ystafell ddosbarth ac i bobl ifanc feddwl am bobl eraill yn dioddef oherwydd cam-drin hawliau dynol yma a thramor.

Addysg yw un o'r meysydd allweddol a ddatganolwyd i'r Cynulliad, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi dangos ymrwymiad i Addysg Hawliau Dynol drwy'i chynnwys yn y cwricwlwm ABCh. Er hynny, nid yw'n elfen orfodol o'r cwricwlwm, ac nid oes unrhyw ddata i fesur sawl ysgol sy'n dysgu'r elfen hon. Nid yw athrawon yng Nghymru, ar hyn o bryd, yn derbyn hyfforddiant penodol ar sut i addysgu pobl ifanc am hawliau dynol.

At hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud cynnydd go iawn o ran annog cyfranogiad pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau mewn ysgolion, a chyflwyno Bagloriaeth Cymru sy'n gwerthuso sylfaen ehangach o addysg a gweithredu cymunedol.

Ein nod dros y pedair blynedd nesaf fydd gwneud y gorau y gallwn i gefnogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at addysg hawliau dynol o safon uchel a chyfleoedd i weithredu dros hawliau dynol drwy ddatblygu Strategaeth Addysg Hawliau Dynol sy'n adlewyrchu'r Gymru sydd ohoni. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r rhai sy'n hyfforddi i fod yn athrawon yn ogystal ag ymgynghori ag athrawon sy'n ymarfer i ddatblygu'r strategaeth.

## PA GYNNYDD PELLACH SYDD EI ANGEN YNG NGHYMRU?

- Canllawiau cryfach i ysgolion er mwyn sicrhau bod pob unigolyn ifanc yng Nghymru'n dysgu am hawliau dynol ac yn dechrau meddwl am sut y mae materion hawliau dynol yn effeithio arnynt ac ar eraill ar draws y Byd.
- Cynnydd ar gyfranogiad fel y bydd mwy o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau amdanynt a'r addysg y maent yn ei derbyn, gydag ysgolion yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar hawliau.
- Rhagor o hyfforddiant i athrawon fel y gallant addysgu hawliau dynol yn well i bobl ifanc.

## CWESTIYNAU I'W GOFYN I YMGEISWYR

Sut byddwch chi/eich plaid yn sicrhau y caiff hawliau dynol eu haddysgu i bob plentyn ac unigolyn ifanc yng Nghymru fel rhan orfodol o'r cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol mewn ysgolion?

Sut byddwch chi/eich plaid yn gweithio tuag at sicrhau bod mwy o ysgolion yng Nghymru'n mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau?

Sut byddwch chi'n sicrhau y caiff hawliau dynol eu cynnwys mewn rhaglenni hyfforddi athrawon yng Nghymru?

Hyrwyddo addysg ar hawliau dynol yn ein hysgolion.

## GWYBODAETH YCHWANEGOL

***"Ble, wedi'r cwbl, y mae hawliau dynol cyffredinol yn dechrau? Mewn mannau bach, yn agos i gartref - mor agos ac mor fach nad yw'n bosibl eu gweld ar unrhyw fap o'r byd. Ac eto nhw yw byd y person unigol; y gymdogaeth y mae'n byw ynddi; yr ysgol neu'r coleg y mae'n mynd iddo; y ffatri, y fferm, neu'r swyddfa y mae'n gweithio ynddi. Dyna'r mannau lle y mae pob dyn, menyw, a phlentyn yn ceisio cyfiawnder cyfartal, cyfle cyfartal, urddas cyfartal heb wahaniaethu. Oni bai bod ystyr i'r hawliau hyn yno, nid oes fawr o ystyr iddynt yn unman."*** **Eleanor Roosevelt**

**Mae mwy o wybodaeth am ein hadnoddau addysgol i'w chael ar www.amnesty.org.uk/education**